Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 17 Mai 2019** am 10.00am yn Ystafell y Bwrdd, Canolfan Optic, Prifysgol Glyndŵr, Llanelwy.

**Presennol**

Mr Jim Barclay
Mr Paul Barlow
Mrs Laura Gough
Mr Angus Hamill-Stewart
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Kieran Irwin
Yr Athro Sandra Jowett
Mr Paul McGrady
Dr Jayne Mitchell
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr Askar Sheibani
Mr David Sprake
Mr David Subacchi
Mrs Caroline Whiteley

**Swyddogion:**
Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)
Mrs Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-ganghellor)*

**Ymddiheuriadau:**
Mr Colin Heron
Mrs Celia Jenkins
Mr Barrie Jones
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*

**Yn bresennol:**
Mrs Val Butterworth (Clerc y Bwrdd)

| | | |
|---|---|---|
| **18.79** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>Croesawyd Mr Sprake i'w gyfarfod Bwrdd cyntaf. | |
| **18.80** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant yn unrhyw eitemau ar yr agenda. | |
| **18.81** | **Materion aelodaeth** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ac argymhellion gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Roedd Mr Lee Robinson wedi cyflwyno llythyr ymddiswyddo oherwydd newid yn ei amgylchiadau gwaith a oedd yn ei atal rhag rhoi ymrwymiad llawn i'r Bwrdd. Roedd yr aelodau'n dymuno cofnodi eu diolchiadau a'u dymuniadau gorau iddo. Byddai'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried y sedd wag yn ei gyfarfod nesaf. | **MP** |

CONFIDENTIAL

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd Mr Barrie Jones wedi gwneud cais am gyfnod o absenoldeb nes bo'i ymrwymiadau gwaith arwyddocaol wedi setlo, a byddai'n adolygu ei sefyllfa ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. CADARNHAODD yr aelodau'r cyfnod absenoldeb byr hwn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYMERADWYO ailbenodi Mr McGrady, Mrs Owen a'r Athro Jowett am ail gyfnod yn y swydd, hyd at 31 Awst 2023.<br><br>CYMERADWYO penodiad Mr Jim Barclay fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.<br><br>CYTUNO i dderbyn argymhellion gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu trwy eu dosbarthu rhwng cyfarfodydd pe bai'n ofynnol fel y gellir penodi llywodraethwyr ac aelodau cyfetholedig newydd gynted ag y bo modd. | |
| **18.82** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2019 yn gofnodion gwir a chywir o'r cyfarfodydd. | |
| **18.83** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.84** | **Adroddiad yr Is-ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad gan yr Is-ganghellor.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Dosbarthwyd dau adroddiad diweddaru gan yr Is-ganghellor, un ar 3 Mai ac ail un ar 10 Mai, yn ogystal â chyfathrebiadau gyda'r staff wedi'u rhannu gyda'r Bwrdd. Croesawodd yr aelodau eu bod yn cael eu hysbysu am ddatblygiadau rhwng cyfarfodydd a gweld y cyfathrebiadau gyda staff.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiadau. | |
| **18.85** | **Yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad gan Lywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Diolchodd Llywydd yr Undeb Myfyfrwyr i Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor am eu cefnogaeth, yn enwedig o ran yr Adolygiad Gwella Ansawdd diweddar a datblygiadau Campws 2025 a oedd eisoes yn gwneud gwahaniaeth i brofiadau'r myfyrwyr. Roedd | |

CONFIDENTIAL

| | | |
|---|---|---|
| | swyddogion yr Undeb Myfyrwyr wedi bod yn y gynhadledd Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol (NUS) yn ddiweddar a chadarnhawyd y bydd diwygiadau arwyddocaol i’r ffordd y cynhelir yr Undeb, ond na fyddai hyn yn debygol o effeithio’n sylweddol ar yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>Llongyfarchwyd Kieran Irwin ac Ebony Banks ar gael eu hethol yn Llywydd ac Is-lywydd o 1 Gorffennaf 2019. Cyflwynwyd diweddariad i’r aelodau ar y broses recriwtio i benodi Prif Weithredwr newydd. Derbyniwyd pum cais hyd yma a threfnwyd i’r panel gyfarfod ar 26 Mehefin i gyfweld ymgeiswyr a gwneud penodiad. Roedd y Bwrdd yn dymuno cofnodi ei ddiolchiadau a dymuniadau gorau i Sarah Ellis, y cyn Brif Weithredwr.<br><br>O ran y Ganolfan Cyngor i Fyfyrwyr ni chafwyd unrhyw gwynion grŵp, ac o’r 20 o gwynion a dderbyniwyd, cafodd 16 eu datrys ar gam cynnar a dim ond 4 oedd wedi bwrw ymlaen i weithdrefn gwynion ffurfiol y Brifysgol. Canmolodd yr aelodau y broses datrys cwynion ar gam cynnar.<br><br>Diolchwyd i Lywydd yr Undeb Myfyrwyr ar fin ymddeol am ei gyfraniad i’r Brifysgol ac i’r Bwrdd a’i bwyllgorau, a dymunwyd y gorau iddo yn y dyfodol. Fe’i gwahoddwyd i ddod i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf fel arsylwr fel rhan o’r broses trosglwyddo’r awennau i’r myfyrwyr lywodraethwyr newydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad. | |
| **18.86** | **Paratoi cyllideb 2019/20** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar baratoi’r gyllideb ar gyfer 2019/20.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr adroddiad ar baratoi cyllideb 2019/20 ac atgoffodd yr aelodau am yr heriau a gododd yng nghyllideb 2018/19, wnaeth arwain at adolygu’r sail costau er mwyn sicrhau y gellir cyflawni gwarged uwch yn 2019/20.<br><br>Mewn ymateb i bryderon y Bwrdd roedd y gwariant ychwanegol ar fuddsoddi mewn Technoleg Gwybodaeth wedi’i gynnwys yn y gyllideb ddrafft, ac roedd y gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau wedi’i hadfer i £1m. Byddai’r gwarged lefel uwch cynlluniedig yn cynorthwyo i gynyddu lefel y cronfeydd wrth gefn. Roedd y cynnydd mewn incwm o Addysg Ryngwladol a’r ddarpriaeth graddau meistr ar-lein hefyd yn gwneud cyfraniad ariannol ac roedd arallgyfeirio’r ddarpariaeth yn lleddfu’r lleihad yn niferoedd y myfyrwyr o’r Deyrnas Unedig a’r Undeb Ewropeaidd i ryw raddau.<br><br>Roedd rhai ffactorau’n parhau’n anhysbys, megis dyraniad cyllid CCAUC, costau’r newidiadau yn sgîl y broses ailstrwythuro gyfredol a chostau meddalwedd i reoli creu cyfarwyddiaeth newydd, yn cynnwys y gofrestrfa academaidd gyfredol a’r swyddogaeth cynllunio strategol.<br><br>Byddai’r gyllideb derfynol yn cael ei chyflwyno i gyfarfod mis Gorffennaf, yn dilyn craffu arni gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ym mis Mehefin.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad. | |
| **18.87** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad rheolaeth ariannol hyd at 31 Mawrth 2019. | |

CONFIDENTIAL

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr adroddiad gan nodi bod yr alldro a ragfynegwyd yn £434k yn erbyn targed cynlluniedig o £552k. Roedd y perfformiad yn erbyn yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol trwy gydol y flwyddyn hyd yma yn gadarnhaol, ynghyd â'r llif arian. Roedd y Brifysgol yn cydymffurfio gyda'r holl gyfamodau'n gysylltiedig â'i benthyciad cyfredol.<br><br>Roedd Grŵp Cyfarwyddwr Cyllid Prifysgolion Prydain wedi cynghori'r holl Brifysgolion i gynnwys cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer cronfa bensiwn y Cynllun Blwydd-dal Prifysgolion (USS) yn dilyn y cynllun adfer diwygiedig yn sgîl prisiad 2017. Roedd hyn yn dod i gyfanswm o £144k sy'n atebolrwydd aelodau cyfredol a blaenorol y cynllun pensiwn ac sy'n ffi nad yw'n arian parod yn y cyfrifon. Dim ond pedwar aelod sydd gan y Brifysgol yn y cynllun pensiwn USS ar hyn o bryd. Cadarnhawyd y bydd y cynnydd yng nghyfraniad y Brifysgol i'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cynnwys aelodaeth arwyddocaol, yn 7.2% yn 2019/20.<br><br>Roedd y gwaith yn parhau i gyflenwi credydau rhan amser a ddyrannwyd gan y cydnabyddir y byddai adfer cyllid rhan amser gan CCAUC yn cael effaith andwyol ar sefyllfa'r gwarged. Roedd gwerth llawn yr adfer potensial yn £645k ar hyn o bryd, ond mae'r gwaith yn parhau i gyflawni'r credydau sy'n ofynnol. Roedd cwrs byr 20 credyd ar gyflogadwyedd graddedigion yn llwyddiannus, roedd rhai cyrsiau byr yn canolbwyntio ar gydymffurfio'n cael eu cynnig i staff awdurdodau lleol, ac roedd rhai buddion maint a fyddai'n cael eu gwireddu pe na bai'r holl gredydau rhan amser yn cael eu defnyddio. Roedd Bwrdd yr Is-ganghellor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyflawni'r credydau sy'n ofynnol a'r gwerth ariannol cysylltiedig.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.88** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad diweddaru ar y cynnydd o ran Campws 2025, yn cynnwys adroddiad ar y gweithredoedd a gyflwynwyd i wella cysylltedd Wi-fi ar draws y campws.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r adroddiad yn nodi bod gwagle dysgu cymdeithasol cydweithredol y Galeri wedi'i gwblhau yn unol â'r gyllideb a'i agor yn ffurfiol yng nghyfarfod agored blynyddol y Bwrdd ar 8 Ebrill 2019.<br><br>Yn dilyn cymeradwyo'r gwariant gan y Bwrdd a phroses dendro ar gyfer adnewyddu'r coridor B, cymeradwywyd dyfarnu'r cytundeb i Spatial Office Environments gan y Bwrdd trwy gyfnewid negeseuon e-bost ar 7 Mai 2019, i sicrhau bod y rhaglen waith yn parhau ar y trywydd cywir i'w chwblhau erbyn diwedd Gorffennaf 2019. Diolchwyd i'r aelodau am ymdrin â'r mater hwn trwy e-bost.<br><br>Roedd peth rhwystredigaeth ynghylch yr amser roedd yn ei gymryd i geisiadau cynllunio'r Brifysgol gael eu hystyried. Roedd y Brifysgol wedi cydymffurfio gyda cheisiadau'r Cyngor am wybodaeth ychwanegol mewn modd amserol. Roedd cyfnod statudol o 13 wythnos ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio; ac erbyn hyn bu'n 40 wythnos ers cyflwyno'r ceisiadau cynllunio a thalu'r ffioedd perthnasol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Is-ganghellor gan y Cyngor y byddai'r ceisiadau cynllunio'n cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 1 Gorffennaf.<br><br>Roedd yr aelodau o blaid awgrym y Brifysgol i gyflwyno'r pryderon hyn am yr oedi i'r Cyngor yn ysgrifenedig, a CHYTUNWYD y dylai'r Brifysgol fynd i apêl ar unwaith os | |

CONFIDENTIAL

| | | |
|---|---|---|
| | nad oedd penderfyniad yn cael ei wneud ym mis Gorffennaf. Gofynnwyd i'r Is-ganghellor ysgrifennu llythyr i'r Cyngor.<br><br>Roedd y Brifysgol wedi mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan Cadw ac wedi rhannu'r newidiadau cytunedig gyda'r corff. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan Cadw, felly tybiwyd eu bod yn fodlon gyda'r newidiadau a wnaed.<br><br>Cyfeiriodd aelod at fater talu £1m o'r benthyciad AIB a oedd i'w wneud ym mis Awst 2019 o'r cronfeydd wrth gefn, gan nodi y nodwyd yn y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid y byddai AIB yn ystyried estyniad i'r dyddiadau ad-dalu cyn belled ag y bo sicrwydd ynghylch cymeradwyo'r caniatâd cynllunio. Roedd yr oedi cyn ystyried y ceisiadau cynllunio yn golygu peidio â chysylltu gyda AIB i ystyried estyniad, ond y gellid ad-dalu'r £1m o gronfeydd wrth gefn y Brifysgol a'i adfer o'r cynlluniau i werthu tir.<br><br>Gan ragweld penderfyniad cadarnhaol ynghylch y ceisiadau cynllunio penodwyd Legat Owen i baratoi'r wybodaeth berthnasol am y safleoedd a nodwyd ar gyfer eu gwaredu i'w rhoi ar y farchnad agored. Byddai papur opsiynau ar y cynigion a dderbyniwyd trwy'r broses hon yn cael ei gyflwyno i gyfarfod arbennig y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i'w gynnal ar 30 Medi ac i'r Bwrdd ar gyfer penderfyniad yn ei gyfarfod yn Hydref 2019. Byddai'r Brifysgol yn agored i gynigion ar gyfer pob safle'n unigolyn neu wedi'u grwpio er mwyn uchafu'r elw.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad Campws 2025. | |
| **18.89** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi mynd i'r digwyddiad Hyrwyddo Addysg Uwch, 'Siapio Agenda Cymru', ar 10 Ebrill a chyfarfod i gloi y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol ar 17 a 18 Ebrill. Cafwyd cyflwyniad diddorol ar Ddadansoddi Data cadw myfyrwyr gan Brifysgol Northumbria.<br><br>Cafwyd cefnogaeth i adolygu llywodraethu yng Nghymru yng Nghyfarfod Cadeiryddion Prifysgol Cymru ar 13 Mai, a phenodwyd y Cadeirydd yn aelod o'r grŵp a fydd yn cynnal yr adolygiad. Roedd penderfyniad Cynhadledd Llafur wedi cefnogi ethol cadeiryddion cyrff llywodraethwyr ym Mhrifysgolion Cymru yn unol â model yr Alban, ond cafwyd arddeall bod hon yn broses feichus.<br><br>Croesawodd yr aelodau'r cyflwyniad recriwtio myfyrwyr a ddarparwyd y noson flaenorol a'r daith o gwmpas Canolfan Optic a drefnwyd yn union cyn cyfarfod y Bwrdd.<br><br>Yn olaf, roedd y Canghellor wedi cytuno i roi'r anerchiad allweddol yng nghynhadledd staff yr Hydref, mynd i'r seremoni wobrwyo myfyrwyr ar 6 Mai 2020 a chyfarfod agored blynyddol y Bwrdd ar 7 Mai 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.90** | **Risgiau Strategol Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Crynodeb o risgiau strategol corfforaethol y Brifysgol.<br>(ii) Map gwres risgiau.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Roedd y newidiadau'n y sgôr risg o ran safle'r Brifysgol gyda CCAUC wedi'u lleihau yn dilyn ymgysylltu cadarnhaol dros gyfnod amser estynedig a gohebiaeth ddiweddar | |

CONFIDENTIAL

| | | |
|---|---|---|
| | gyda CCAUC. Roedd y risg yn gysylltiedig â threfniadaeth a phersonél wedi cynyddu ond roedd yn sgôr heb ei leddfu a fyddai'n lleihau unwaith y bo'r broses ailstrwythuro wedi'i chwblhau. Roedd yr Undeb Myfyrwyr yn monitro unrhyw effaith yr ymarfer ailstrwythuro ar brofiadau'r myfyrwyr, ond ni chafwyd unrhyw faterion negyddol hyd yma.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.91** | **Cylchlythyrau ac ymgynghoriadau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb ynghylch nifer o gylchlythyrau CCAUC a gyhoeddwyd ers y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Nodwyd y byddai canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2019 yn cael eu cyhoeddi ar 3 Gorffennaf, ac y byddai crynodeb o'r data ar gael i gyfarfod y Bwrdd ar 12 Gorffennaf. Roedd y Brifysgol wedi cael cyfradd ymateb 76% i'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, a oedd yn uwch na'r meincnod.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.92** | **Defnyddio Sêl y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar ddefnyddio sêl y Brifysgol ers Tachwedd 2018.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI y defnyddiwyd y Sêl ar un achlysur ers Mawrth 2019 fel y nodwyd yn yr adroddiad. | |
| **18.93** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **18.93.01 Y Pwyllgor Archwilio** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI bod cofnodion 22 Mawrth 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor. | |
| | **18.93.02 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2019.<br>(ii) Y broses Dethol Llywodraethwyr newydd.<br>(iii) Y weithdrefn Cymrodoriaeth er Anrhydedd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at y diwygiadau i'r Broses Dethol Llywodraethwyr newydd a'r weithdrefn Cymrodoriaeth er Anrhydedd. Gwnaed yn glir nad oedd gwleidyddion sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer eu hystyried ar gyfer cymrodoriaeth er anrhydedd yn arferol, yn rhannol er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cynnal safiad amhleidiol, er bod Arglwyddi'n fwy annibynnol. Tynnwyd | |

CONFIDENTIAL

| | | |
|---|---|---|
| | sylw bod gwleidyddion ar y rhestr Cymrodorion er Anrhydedd cyn 2009 pan gafodd y weithdrefn Cymrodoriaeth er Anrhydedd ei ffurfioli a'i chymeradwyo gan y Bwrdd. Er gwaethaf hyn, gallai amgylchiadau eithriadol godi a allai arwain at wleidydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn derbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd.<br><br>Roedd y Cadeirydd wrth ei bodd yn hysbysu bod y Canghellor wedi cytuno i fod yn bresennol mewn dwy seremoni raddio a'r cinio Cymrodorion er Anrhydedd yn 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod.<br><br>CYMERADWYO'R Broses Dethol Llywodraethwyr Newydd wedi'i diweddaru.<br><br>CYMERADWYO'R Weithdrefn Cymrodoriaeth er Anrhydedd wedi'i diweddaru. | |
| | **18.93.03 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2019<br>(ii) Polisi a Gweithdrefn Cwyn Gyflogaeth gan Staff<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at yr ystyriaeth fanwl i'r risg tân potensial yn gysylltiedig gyda'r cladin ar Bentref Myfyrwyr Wrecsam, a chroesawodd lefel y manylion a'r sicrwydd a ddarparwyd gan yr adroddiadau a'r trafodaethau. Diolchodd i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Cynghorydd Diogelwch Tân a Mr David Subacchi am eu hymwneud gyda hyn. Roedd y polisi cwynion cyflogaeth yn bolisi da a dim ond mân ddiwygiadau a awgrymwyd gan y pwyllgor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI bod cofnodion 2 Mai 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod.<br><br>CYMERADWYO'R Polisi a Gweithdrefn Cwyn Gyflogaeth gan Staff. | |
| | **18.93.04 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mai 2019.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Pwysleisiodd Cadeirydd y Pwyllgor gais y Pwyllgor i gynyddu eu trosolwg o ran is-gwmnïau'r Brifysgol. Croesawodd y pwyllgor adroddiad meincnodi ariannol KPMG a oedd yn dangos sefyllfa ariannol y Brifysgol mewn cymhariaeth â'u cleintiaid Addysg Uwch ôl 92 eraill ar sail datganiadau ariannol 2017/18. Byddai'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu i holl aelodau'r Bwrdd, er gwybodaeth.<br><br>Cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod ar 3 Mai yng nghampws Llaneurgain a chafodd yr aelodau daith o gwmpas y campws.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, cadarnhawyd y disgwylid cynnal agoriad swyddogol Parc y Glowyr ym mis Medi 2019. Byddai'r trosglwyddo swyddogol yn digwydd yn gynnar ym mis Gorffennaf fel y gellid tywys myfyrwyr yn dod i'r diwrnod agored ym mis Awst o gwmpas y cyfleuster. Byddai'r Llywodraethwyr yn cael eu hysbysu am y dyddiad agor gynted ag y bo modd. | **VB** |

CONFIDENTIAL

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI bod cofnodion 3 Mai 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor. | |

CONFIDENTIAL